



Dinas a Sir Abertawe

**Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu –  
Datblygu ac Adfywio**

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022 am 11.00 am**

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

P Downing  
D W Helliwell  
P R Hood-Williams  
P K Jones

**Y Cyngorydd(wyr)**

E W Fitzgerald  
T J Hennegan  
L James  
S M Jones

**Y Cyngorydd(wyr)**

S J Gallagher  
C A Holley  
M H Jones  
T M White

**Aelodau'r Cabinet**

Robert Francis-Davies  
David Hopkins  
Rob Stewart

Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth  
Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau  
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Strategaeth a Chyllid

**Arall (eraill)**

Geoff Bacon  
Emily Davies  
Andy Pearson  
Russell Greenslade

Pennaeth Gwasanaethau Eiddo  
Swyddog Craffu  
Swyddog Cyfathrebu a Marchnata  
Prif Weithredwr, BID Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wy): P M Black a/ac W G Thomas

---

**33 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau

**34 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau

**35 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Ystyriodd y panel gofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**36 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd

### 37 **Ardal Gwella Busnes Abertawe (BID) - Trosolwg**

Derbyniodd y panel gyflwyniad trosolwg, a gyflwynwyd gan Russell Greenslade, Prif Weithredwr BID Abertawe. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol:

- Mae BID Abertawe'n un o Ranbarthau Gwella Busnes gwreiddiol y DU, a'r cyntaf yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Awst 2006, ar ôl cael mandad cadarnhaol drwy bleidlais o fusnesau/sefydliadau yn ardal ddynodedig y BID.
- Mae BID Abertawe yn gweithredu o fewn yr 20% uchaf o Ranbarthau Gwella Busnes yn y DU yn seiliedig ar ei berfformiad a'i reolaeth.
- Holodd yr aelodau sut y caiff y perfformiad hwn ei fesur. Clywodd y panel fod hwn yn cael ei gyfrifo gan gorff annibynnol o randdeiliaid cenedlaethol.
- Esboniwyd bod BID Abertawe yn gwmni sector preifat nid er elw, a chanddo ei Fwrdd Cyfarwyddwyr ei hun sy'n cynnwys cynrychiolwyr Preifat, Cyhoeddus a'r Trydydd Sector sy'n cyfrannu'n ariannol tuag at gwmni'r BID.
- Tynnwyd sylw'r panel at y ffaith fod yr Awdurdod Lleol yn bartner strategol allweddol.
- Gofynnodd yr aelodau a yw unrhyw fusnesau bellach wedi tynnu'n ôl neu wedi dewis peidio â chyfrannu at ardoll y BID. Clywodd y panel fod pob busnes yn cyfrannu, sy'n cyfateb i tua 813 o fewn ardal BID Abertawe.
- Holodd yr aelodau am yr union ardal a gwmpesir gan BID Abertawe.
- Clywodd yr aelodau fod llawer o siopau newydd sydd wedi agor yn fanwerthwyr annibynnol, sy'n dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n prynu dillad ddoe a chynnydd mewn manwerthu moesegol, gan gysylltu â'r farchnad myfyrwyr.
- Mae masnachwyr cenedlaethol hefyd wedi agor yn ogystal â masnachwyr annibynnol, gan helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr.
- Holodd yr aelodau a ellid cynnwys unrhyw ardaloedd eraill y tu allan i ardal ganolog y BID. Clywodd y panel fod y Mwmbwls, er enghraifft, wedi dechrau ystyried sefydlu Rhanbarth Gwella Busnes ar wahân cyn y pandemig.
- O safbwynt y BID, clywodd y panel fod y datblygiadau yng Nghanol y Ddinas wedi creu agwedd gadarnhaol newydd am yr ardal ac maent yn cael eu croesawu a'u cefnogi gan gymuned fusnes Canol y Ddinas.
- Soniodd yr aelodau am waith blaenorol BID Abertawe a natur werthfawr y gwaith a wnaed.
- Gwnaeth y panel sylwadau ar yr heriau a wynebier gan ganol dinasoedd ledled y wlad.
- Clywodd y panel fod BID Llundain wedi sôn am brosiectau adfywio Abertawe, mewn perthynas â chynnydd a chyflymder y prosiectau.
- Tynnwyd sylw at y ffaith fod busnesau'n addasu i gynnydd yn nifer y bobl sy'n byw yng Nghanol y Ddinas, a bod angen hyrwyddo economi'r nos.
- Holodd yr aelodau am effaith cau manwerthwyr mawr ar fasnach ganol y ddinas a sut y caiff y lle gwag hwn ei hyrwyddo.
- Clywodd y panel mai Abertawe oedd y lle cyntaf yn y DU i osod mannau parcio clicio a chasglu dynodedig yng Nghanol y Ddinas.
- Gwnaeth yr aelodau sylwadau cadarnhaol ar y syniad o roi arddangosfeydd mewn ffenestri siopau gwag, yn hytrach na gadael ffenestri siopau'n wag.

- Cododd y panel ymholiadau ynghylch a oedd siop fwyd Marks & Spencer yn y Mwmbwls wedi cael effaith ar Ganol y Ddinas. Esboniwyd bod Marks & Spencer wedi disgwyl yr effaith hon ac wedi ystyried hyn wrth benderfynu eu cynnyrch a'u gweithrediadau.

**38 Datblygiadau Blaendraeth (Diweddariad Llafar)**

Clywodd y panel drosolwg cyfyngedig o'r sefyllfa bresennol, mewn perthynas â strategaeth bresennol Bae Abertawe. Cytunwyd bod y panel yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlinellu meysydd diddordeb penodol, ac yna gellid cyflwyno ymateb i'r panel in camera os yw'n briodol.

**39 Adroddiad Diweddaraf am y Prosiect**

Nododd y panel yr adroddiad, er gwybodaeth.

**40 Cynllun Gwaith**

Nododd y panel y cynllun gwaith.

**41 Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00

**Cadeirydd**